Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:

## Adroddiad Monitro

17 Medi 2018



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6315**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:

## Adroddiad Monitro


**Awdur:** Joseph Champion ac Alys Thomas


**Dyddiad:** 17 Medi 2018


www.cynulliad.cymru/ymchwil

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 1**

Crynodeb o'r datblygiadau ... 1

**2. Y datblygiadau diweddaraf ... 3**

Y Cytundeb Ymadael ... 3

Y berthynas yn y Dyfodol: ... 5

Deddfwriaeth y DU ... 9

Bil Trwyddedau Cludo Nwyddau a Chofrestru Ôl-gerbydau ... 9

Trethiant a Masnach ... 9

Deddfwriaeth y DU sydd i ddod ... 10

**3. Meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ... 11**

Parodrwydd ... 11

Effaith bosibl Brexit ... 13

**4. Ymateb Llywodraeth Cymru ... 14**

Parodrwydd ... 15

# 1. Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy’n ymwneud â negodiadau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â’r UE ers 9 Gorffennaf 2018.

Mae’r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb o'r datblygiadau diweddaraf yn y negodiadau a deddfwriaeth gysylltiedig y DU;
- Dadansoddiad o'r materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (y Pwyllgor); a
- Chrynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i’r datblygiadau diweddaraf.

Sylwer na fydd y tabl dogfennau a phapurau negodi Brexit yn cael eu cynnwys mwyach yn yr adroddiad monitro. Caiff ei ddiweddaru a'i gyhoeddi ar wahân ar flog y Gwasanaeth Ymchwil.

## Crynodeb o’r datblygiadau

- Ar 12 Gorffennaf, cyhoeddwyd Papur Gwyn llawn Llywodraeth y DU ar y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol[1]. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cyhoeddi cyfres o erthyglau thematig sy'n edrych ar y Papur Gwyn. Mae'r rhain wedi'u coladu a'u cyhoeddi ar ei flog.
- Cyfarfu Grŵp Cynghori Cymru ar Ewrop yr un diwrnod. Nododd nodiadau'r cyfarfod hwnnw fod y grŵp yn dod i'r casgliad bod 'angen gwneud mwy i sicrhau bod Cymru yn barod yn weithredol wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd'.
- Hefyd ar 12 Gorffennaf, cyhoeddodd Grŵp Llywio Brexit Senedd Ewrop ei farn gychwynnol am ddatganiad Chequers.
- Ar 16 Gorffennaf, dywedodd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, fod y Papur Gwyn yn cynrychioli 'sefyllfa negodi cymharol gredadwy'.

[1] Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r crynodeb o'r Papur Gwyn.

- Cynhaliwyd Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin o'r Bil Trethiant (Masnach Drawsffiniol) ar 16 Gorffennaf. Fe'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 17 Gorffennaf. Cynhaliwyd yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Medi.
- Cafodd y Bil Masnach ei Gyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Gorffennaf a'i Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Gorffennaf. Cafodd ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Medi.
- Ar 19 Gorffennaf, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ddatganiad i sefydliadau eraill yr UE sy'n galw i baratoadau Brexit gynyddu ar unwaith ar bob lefel ac ar gyfer yr holl ganlyniadau posibl.
- Cafodd Deddf Trwyddedau Cludo Nwyddau a Chofrestru Ôl-gerbydau 2018 — Senedd y DU Gydsyniad Brenhinol ar 19 Gorffennaf 2018.
- Rhoddodd Michel Barnier ymateb cyhoeddus i Lywodraeth y DU mewn datganiad ar 20 Gorffennaf yn dilyn cyfarfod Cyngor Materion Cyffredinol Comisiwn yr UE ac mewn un arall ar 26 Gorffennaf yn dilyn cyfarfod â Dominic Raab. Mynegodd y datganiadau hyn amheuaeth ynghylch ymarferoldeb rhai o gynigion y DU.
- Mewn datganiad cyfatebol yn dilyn y cyfarfod ar 26 Gorffennaf, tynnodd Dominic Raab, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, sylw at safbwynt Llywodraeth y DU ar y negodiadau.
- Cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm Gweinidogol (Negodiadau'r UE) yng Nghaerdydd ar 1 Awst.
- Ar 20 Awst, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei fframweithiau ar gyfer y bartneriaeth rhwng y DU a'r UE, ym meysydd gwasanaethau ariannol a chystadleuaeth agored a theg.
- Ar 21 Awst, dywedodd Michel Barnier fod y negodiadau bellach yn canolbwyntio ar dair ffrwd waith; yr ateb wrth gefn ar gyfer ffin Iwerddon, y materion dros ben yn y Cytundeb Ymadael a'r datganiad ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.
- Ar 23 Awst, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y 25 hysbysiad technegol cyntaf ar sut i baratoi ar gyfer Brexit os yw'r DU yn gadael yr UE heb fargen. Ar yr un pryd, cafwyd araith gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn datgan cyhoeddi'r hysbysiadau a'u sail resymegol.

- Yr un diwrnod, mae Llywodraeth y DU wedi sicrhau arian newydd ar gyfer rhaglenni a ariennir gan yr UE hyd at ddiwedd 2020 os na cheir bargen a rhoi arweiniad ar sut y bydd hyn yn gweithredu ar gyfer rhaglenni penodol megis Erasmus+ a Horizon 2020.
- Gan ymateb i gyhoeddiad Llywodraeth y DU o'r hysbysiadau technegol dim bargen ar 23 Awst, dywedodd Prif Weinidog Cymru "'Nid yw ymadael heb gytundeb yn opsiwn ac nid yw ymgais Llywodraeth y DU i daflu llwch i'n llygaid yn llwyddo".
- Mewn datganiad ar 31 Awst, tynnodd Michel Barnier sylw at y cynnydd a wnaed wrth gytuno ar bartneriaeth ar ddiogelwch mewnol ac amlinellodd y materion dros ben sydd i'w cytuno yn y Cytundeb Ymadael.
- Ar 10 Medi, cafwyd prif araith gan Cymru Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, o'r enw "Brexit and devolution: stresses, strains and solutions", yn y Sefydliad Llywodraeth yn Llundain.
- Cafodd y Bil Amaethyddiaeth ei Ddarlleniad Cyntaf ar 12 Medi. Mae Cymal 27 ac Atodlen 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru.
- Ar 12 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddatganiad ar y cyd yn nodi sut y maent yn bwriadu cydweithio ar amaethyddiaeth yn y dyfodol.
- Ar 13 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y DU yr ail gyfran o hysbysiadau technegol dim bargen yn cwmpasu ystod o sectorau.

# 2. Y datblygiadau diweddaraf

## Y Cytundeb Ymadael

Parhaodd negodiadau ar y Cytundeb Ymadael dros yr haf, yn dilyn y casgliad y daethpwyd iddo yng nghyfarfod mis Mehefin y Cyngor Ewropeaidd nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud.

Er bod y ddwy ochr wedi datgan y cytunwyd ar oddeutu 80 y cant o'r Cytundeb, mae'r meysydd mwyaf cymhleth a heriol i'w datrys o hyd. Mewn datganiad yn dilyn ei gyfarfod â Dominic Raab, Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ymadael â'r UE, ar 21 Awst, nododd Michel Barnier y canlynol:

> Dominic and I focused on what needs to be done in our three work streams:
>
> - a backstop solution for avoiding a hard border on the island of Ireland;
> - the other outstanding issues of the Withdrawal Agreement, for instance the protection of existing Geographical Indications, amongst others;
> - the political declaration on our future relationship.
>
> We have agreed that the EU and the UK will negotiate continuously from now on.

Nodwyd meysydd dros ben eraill mewn datganiad gan Mr Barnier ar 31 Awst ac roedd yn cynnwys diogelu data personol a drosglwyddir i'r DU cyn diwedd y cyfnod pontio, Euratom, trefniadau llywodraethu'r Cytundeb Ymadael a dod o hyd i atebion ar gyfer tiriogaethau penodol Prydain, megis yng Nghyprus a Gibraltar[2].

Y dyddiad cau presennol ar gyfer cymeradwyo'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol cysylltiedig ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol yw mis Hydref 2018 (fel y nodir mewn datganiad gan y Comisiwn i sefydliadau eraill yr UE a gyhoeddwyd ar 19 Gorffennaf).

Fodd bynnag, dywedwyd wedi hynny y gallai'r terfyn amser hwn ar gyfer cytundeb gael ei wthio'n ôl i rywbryd ym mis Tachwedd. Wrth siarad mewn cynhadledd yn Slofenia ddydd Llun 10 Medi, nododd Mr Barnier ei farn ei bod yn realistig ac yn bosibl i'r UE a'r DU ddod i gytundeb ar delerau'r Cytundeb Ymadael erbyn dechrau mis Tachwedd.

Nid oes sicrhad y gellir datrys y materion dros ben hyn yn foddhaol o fewn yr amser sydd ar ôl. O ganlyniad, roedd datganiad Cyngor yr UE yn nodi barn y Comisiwn am brif ganlyniadau senario heb fargen a daeth i'r casgliad a ganlyn:

> **Preparation must therefore be stepped up immediately at all levels and taking into account all possible outcomes.** [pwyslais gwreiddiol]

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cynyddu ei pharatoadau ar gyfer Brexit 'dim bargen', gan gyhoeddi cyfres o nodiadau technegol a nodi sut y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio lliniaru effaith senario dim bargen mewn sectorau amrywiol. Mae

[2] Mae negodiadau ar y ddwy ochr yn parhau rhwng Sbaen a'r DU o ran statws Gibraltar.

rhagor o nodiadau technegol i'w cyhoeddi drwy fis Medi. Mae rhagor ar barodrwydd yn Adran 3 o'r papur hwn.

## Y berthynas yn y Dyfodol:

Er y tybir bod cytundeb ar 80 y cant o'r Cytundeb Ymadael, mae llawer o ansicrwydd yn parhau i fod o ran y datganiad cysylltiedig ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio cyflwyno rhywfaint o eglurder, gan nodi ei gweledigaeth ar gyfer perthynas yn y dyfodol yn dilyn cyfarfod Llywodraeth y DU yn Chequers ar 6 Gorffennaf. Yn dilyn y cyfarfod, cyhoeddwyd bod Llywodraeth y DU wedi dod i gytundeb ar Bapur Gwyn ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Yn ystod y dyddiau ar ôl y cyhoeddiad, ymddiswyddodd Boris Johnson, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad ar y pryd a David Davis, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar y pryd. Cymerwyd eu lleoedd gan Jeremy Hunt a Dominic Raab yn ôl eu trefn.

Ar 12 Gorffennaf, cyhoeddwyd Papur Gwyn llawn Llywodraeth y DU ar y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol[3].

Crynhoir cynigion y DU gan y Gwasanaeth Ymchwil mewn erthygl a gyhoeddwyd ar 17 Gorffennaf. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cyhoeddi cyfres o erthyglau manylach ar feysydd penodol o Bapur Gwyn, megis amaethyddiaeth, trafnidiaeth, addysg uwch, yr economi ac ati. Mae'r rhain wedi'u coladu a'u cyhoeddi yma.

Wrth ei wraidd, mae'r Papur Gwyn yn cynnig Ardal Masnach Rydd newydd ar gyfer nwyddau, gan gynnwys nwyddau bwyd-amaeth. Byddai hyn yn cynnwys:

- Dim tariffau ar nwyddau a weithgynhyrchir a nwyddau bwyd-amaeth a dim cwotâu na gofynion rheolau tarddiad ar gyfer nwyddau rhwng y DU a'r UE.
- Llyfr rheolau cyffredin ar gyfer nwyddau, gan gynnwys nwyddau bwyd-amaeth, yn gyfyngedig i reolau sy'n ymwneud â'r angen am archwiliadau ar y ffin. Mae'r papur yn nodi y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU wneud ymrwymiad ymlaen llaw i gysoni rheolau â'r UE, a

[3] Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r crynodeb o'r Papur Gwyn.

byddai hefyd yn atal gosod ffin galed rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon.

- Trefniad Tollau Hwylusedig (FCA) newydd pan fyddai'r DU yn codi prisiau'r DU ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU ar gyfer marchnad y DU a thariffau'r UE ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU ond sydd wedi'u pennu ar gyfer marchnad yr UE.
- Cyfranogiad y DU mewn asiantaethau allweddol o'r UE sy'n chwarae rhan arwyddocaol wrth osod nwyddau ar y farchnad, fel yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd, yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd a'r Asiantaeth Diogelwch Hedfanaeth Ewropeaidd.
- Fframwaith newydd ar symudedd a fyddai'n caniatáu i ddinasyddion y DU a'r UE deithio at ddibenion twristiaeth ac at ddibenion busnes tymor byr heb fod angen fisas.
- Cytuno i fabwysiadu'r un system a rheolau ar gymorth gwladwriaethol, a chydweithrediad agos o ran rheoleiddio cystadleuaeth.
- Cytundeb newydd ar wasanaethau sy'n mynd ymhellach na threfniadau presennol yr UE â gwledydd trydydd parti, ond na fyddai'n cyfateb i'r mynediad presennol i'r farchnad sydd gan sector gwasanaeth y DU.
- Ymrwymiad i gynnal y lefel isaf o ran safonau amgylcheddol, newid hinsawdd ac amddiffyniadau cymdeithasol ac yn arbennig cymal nad yw'n atchweliad ar safonau amgylcheddol a safonau llafur domestig.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer partneriaeth ddiogelwch newydd â'r UE. Byddai hyn yn cynnwys y DU yn cymryd rhan mewn rhai o asiantaethau diogelwch cyfredol yr UE ond ar delerau gwahanol; mynediad at systemau diogelwch allweddol, cydweithio parhaus ar amddiffyn, gan gynnwys ym maes ymchwil a datblygu, cytundebau ar estraddodi, parhau i gymryd rhan yn y Rhaglen Lloeren Galileo a chydweithredu mewn meysydd fel diogelwch iechyd.

Mae hefyd yn cynnig 'cydsyniadau cydweithredol' mewn pum maes allweddol:

- Gwyddoniaeth ac arloesedd;
- Diwylliant ac addysg;
- Cymorth rhyngwladol a datblygiad;

- Ymchwil amddiffyn a gallu amddiffyn; a'r
- Gofod

Ar 12 Gorffennaf, cyhoeddodd Grŵp Llywio Brexit Senedd Ewrop ei farn gychwynnol am ddatganiad Chequers. Ynddi, nododd Grŵp Llywio Brexit, er ei fod wedi croesawu datganiad a Phapur Gwyn Llywodraeth y DU, ailadroddodd ei farn a ganlyn am unrhyw berthynas newydd:

> "...among others the principles of the **non-divisibility of the four freedoms**, the **integrity of the single market**, avoiding a sector-by-sector approach and safeguarding financial stability, the preservation of the autonomy of EU decision-making, the safeguarding of the EU legal order and the balance of rights and obligations which any future EU-UK relationship will need to respect. In this framework there will be, for example, **no space for outsourcing EU's customs competences".**
> [ychwanegwyd pwyslais]

Rhoddodd Michel Barnier ymateb cyhoeddus i Lywodraeth y DU mewn datganiad ar 20 Gorffennaf, yn dilyn cyfarfod Cyngor Materion Cyffredinol Comisiwn yr UE ac mewn un arall ar 26 Gorffennaf, yn dilyn cyfarfod â Dominic Raab.

Ar 20 Gorffennaf, nododd Mr Barnier fod:

- rhywfaint o gytundeb ar gysyniad Cytundeb Masnach Rydd rhwng yr UE a'r DU;
- cefnogaeth a rennir ar gyfer man cychwyn cyfartal, yn enwedig ym maes cymorth gwladwriaethol a safonau amgylcheddol a llafur;
- cydgyfeiriant mawr o safbwyntiau ar gydweithrediad posibl ac angenrheidiol ym maes diogelwch mewnol ac allanol'; a
- nifer o broblemau o hyd gyda chynigion Chequers.

Roedd ei bryderon yn ymwneud ag archwiliadau ar ffin y DU ar nwyddau sy'n dod i'r UE, ymarferoldeb a chyfreithlondeb y Trefniad Tollau Hwylusedig arfaethedig ac i ba raddau y gellir gwahanu gwasanaethau o nwyddau, gan nodi'r canlynol:

> "...we know that 20%-40% of the value of products that we use every day is linked to services, how would we avoid unfair competition which European businesses could be faced with?"

Yn ei ddatganiad ar 26 Gorffennaf, tynnodd Mr Barnier sylw bod cytundeb mawr ar gynigion y DU ar gyfer partneriaeth ddiogelwch â'r UE, yn enwedig o ran polisi tramor a diogelwch allanol. Nododd fod cwmpas gwirioneddol i gytuno ar gydweithrediad agos ar faterion diogelwch mewnol, megis olrhain ac estraddodi troseddwyr. Fodd bynnag, cwestiynodd Mr Barnier hefyd gynigion tollau'r DU, gan nodi'r canlynol:

> "…the EU cannot – and will not – delegate the application of its customs policy and rules, VAT and excise duty collection to a non-member, who would not be subject to the EU's governance structures".

Hefyd, tynnodd Mr Barnier sylw at yr angen cyffredinol am ateb y mae pawb yn gytûn arno i'r ffin ar ynys Iwerddon.

Mewn datganiad cyfatebol yn dilyn y cyfarfod ar 26 Gorffennaf, tynnodd Dominic Raab, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, sylw bod safbwynt Llywodraeth y DU ar ffin Iwerddon yn parhau i fod yr un a nodwyd ym mis Mehefin a galwodd am y canlynol ar gyfer yr ateb wrth gefn.

> "…be for a time-limited period before the permanent future arrangements would become operational".

Mewn datganiad i Senedd y DU ar 4 Medi, rhoddodd Dominic Raab grynodeb o'r Papur Gwyn y byddai'n galluogi'r canlynol:

- masnach ddirwystr ar draws ein ffiniau;
- cydweithrediad agos parhaus ar orfodi'r gyfraith a materion diogelwch eraill;
- rhyddid i'r DU ddatblygu ei pholisi masnach annibynnol ei hun; a
- chydweithrediad ehangach rhwng y DU a'r UE o ymchwil i gyfnewidfeydd myfyrwyr, mewn llawer o'r meysydd rydym yn eu gwerthfawrogi ar y ddwy ochr.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd y bydd y cynigion yn golygu y bydd y DU yn gadael y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau ac y bydd symudiad rhydd pobl ac awdurdodaeth Llys Ewrop yn dod i ben.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Fframweithiau ar gyfer y bartneriaeth rhwng y DU a'r UE, ym meysydd gwasanaethau ariannol a chystadleuaeth agored a theg.

# Deddfwriaeth y DU

## Bil Trwyddedau Cludo Nwyddau a Chofrestru Ôl-gerbydau

Cafodd Deddf Trwyddedau Cludo Nwyddau a Chofrestru Ôl-gerbydau 2018 — Senedd y DU Gydsyniad Brenhinol ar 19 Gorffennaf 2018. Diben y Bil yw gwneud darpariaeth i helpu cludwyr nwyddau'r DU i barhau i weithio'n rhyngwladol ar ôl i'r DU adael yr UE. O ganlyniad, mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddarparu cynllun trwyddedau cludo nwyddau, os bydd angen cynllun o'r fath fel rhan o fargen â'r UE, gyda'r nod o sicrhau y gall cludwyr nwyddau'r DU gael y gwaith papur angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau i wledydd yr UE ac oddi yno. Mae hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i gyflwyno cynllun cofrestru ôl-gerbydau. Mae'r Bil yn ymestyn ac yn gymwys i Gymru ac nid yw'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn nodi nad oes gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â thrwyddedau cludo nwyddau ar lorïau a chofrestru ôl-gerbydau.

## Trethiant a Masnach

Cynhaliwyd Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin o'r Bil Trethiant (Masnach Drawsffiniol) ar 16 Gorffennaf. Fe'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 17 Gorffennaf. Cynhaliwyd yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Medi. Gan mai Bil cyflenwi yw'r Bil, nid oes gan Dŷ'r Arglwyddi bŵer i'w ddiwygio a chymerwyd y camau a oedd yn weddill yr un diwrnod. Bwriad y Bil yw gosod a rheoleiddio toll dramor drwy gyfeirio at fewnforio nwyddau i mewn i'r Deyrnas Unedig.

Cafodd y Bil Masnach ei Gyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Gorffennaf a'i Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Gorffennaf. Cafodd ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Medi. Yn ystod y drafodaeth, tynnodd yr Arglwydd Fox (Democrat Rhyddfrydol) sylw at y ffaith nad oedd cam y Pwyllgor ar gyfer y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi wedi'i gyhoeddi:

> [...] after this debate there is absolutely no sign of a committee stage. I had expected to return in October and find committees ready and waiting, but no. It is not on the programme so far; is it happening in mid-October, late October, or November? Perhaps the Minister or someone in government can help. Either way, if this Bill is so important, why are we not getting on with it?

Cafodd y Bil Amaethyddiaeth ei Ddarlleniad Cyntaf ar 12 Medi. Diben y Bil yw awdurdodi gwariant newydd at ddibenion amaethyddol penodol a dibenion eraill.

Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch taliadau uniongyrchol yn ystod cyfnod pontio amaethyddol yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch caffael a defnyddio gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi bwyd. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i ymateb i amodau marchnad eithriadol sy'n effeithio ar farchnadoedd amaethyddol ac i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir sy'n ymwneud â thaliadau datblygu amaethyddol a gwledig ac ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus a chymorth storio preifat. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch safonau marchnata a dosbarthiad carcasau ac ar gyfer cydnabod cymdeithasau cynhyrchwyr amaethyddol a all elwa ar rai eithriadau o'r gyfraith gystadleuaeth. Yn olaf, mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i wneud rheoliadau ynghylch contractau ar gyfer prynu cynhyrchion amaethyddol gan gynhyrchwyr amaethyddol a sicrhau cydymffurfiaeth â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth.

Mae Cymal 27 ac Atodlen 3 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, ond nid i Weinidogion yr Alban oherwydd eu gwrthwynebiad i'r Bil. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn dweud:

> Further provisions relating to Wales can be found in Schedule 3. This is at the request of the Welsh Government in order to continue making payments to farmers and land managers once the UK leaves the EU, to make changes to current schemes and to enable implementation of replacement land management schemes. These powers are intended to be time limited until a Welsh Agriculture Bill can be brought forward.

## Deddfwriaeth y DU sydd i ddod

Daeth yr ymgynghoriad ar bapur gwyn y pysgodfeydd: pysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol i ben ar 12 Medi. Mae'r Papur Gwyn hwn yn ddogfen bolisi Llywodraeth y DU sy'n trafod ystod o faterion polisi pysgodfeydd, yn amodol ar y trafodaethau parhaol rhwng Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a'r Llywodraethau Datganoledig.

Daeth ymgynghoriad Defra ar y Papur Gwyn, sef Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu ar ôl Ymadael â'r UE i ben ar 2 Awst. Mae'r ddogfen yn trafod rhai o'r cwestiynau allweddol ynghylch sut y dylai egwyddorion amgylcheddol gael eu hymgorffori yn y gyfraith, gwneud a chyflwyno polisïau cyhoeddus, a pha

swyddogaethau a phwerau y dylai'r corff gwarchod amgylcheddol newydd eu cael er mwyn goruchwylio cyfraith a pholisi amgylcheddol. Fe'i gosodir mewn tair rhan:

Rhan 1 – Egwyddorion Amgylcheddol

Rhan 2 – Atebolrwydd dros yr Amgylchedd

Rhan 3 – Llywodraethiant Amgylcheddol Gyffredinol

Mae'r cynigion ymgynghori yn gymwys i Loegr a materion a gedwir yn unig.

# 3. Meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i’r Pwyllgor Materion Allanol

## Parodrwydd

Gyda saith mis tan y diwrnod ymadael, mae Llywodraeth y DU wedi dechrau gwneud mwy o waith ar ei pharatoadau pe bai 'senario dim bargen' drwy gyhoeddi'r casgliad cyntaf o 25 hysbysiad technegol ar sut i baratoi ar gyfer Brexit os yw'r DU yn gadael yr UE heb fargen. Mae disgwyl y bydd rhagor o'r hysbysiadau hyn, a fwriedir i helpu busnesau a dinasyddion i gynllunio a pharatoi ar gyfer y fath senario, yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi. Mewn araith gan Dominic Raab, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, pan ddatganodd gyhoeddi'r hysbysiadau, dywedodd:

> “In the notices themselves, we set out clear steps that public institutions, companies and people should take or consider taking, in order to avoid or mitigate or manage the risk of any potential short-term disruption.
>
> The overarching aim of the notices is to facilitate the smooth, continued, functioning of business, transport, infrastructure, research, aid programmes and funding streams that have previously come from the EU.
>
> In some cases, it will mean taking unilateral action to maintain as much continuity as possible at least in the short term, in the event of no deal, and irrespective of whether the EU reciprocates in practice”.

Ailadroddodd Dominic Raab hefyd nad senario dim bargen yw'r hyn y mae Llywodraeth y DU am ei gael na'i ddisgwyl o'i negodiadau â'r UE.

Mae rhai o'r hysbysiadau technegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, ac sy'n debygol o fod o ddiddordeb i randdeiliaid yng Nghymru, yn cynnwys arweiniad ar y canlynol:

- Masnachu gyda'r UE os na cheir bargen Brexit gan gynnwys y goblygiadau ar gyfer busnesau sy'n mewnforio o'r UE, neu'n allforio i'r UE;
- Pa ddosbarthiad i'w roi i nwyddau yn Nhariff Masnach y DU os na fydd y DU yn negodi partneriaeth economaidd yn y dyfodol â'r UE sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Ardal Masnach Rydd mewn perthynas â nwyddau. Mewn 'senario dim bargen', byddai nwyddau a gaiff eu masnachu rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit yn ddarostyngedig i'r un gofynion ag y mae nwyddau trydydd gwledydd, gan gynnwys talu toll dramor; a
- Chynhyrchu a phrosesu bwyd organig, gan gynnwys newid logos ar becynnau i dynnu logo organig yr UE ac allforio o'r DU i'r UE. Er mwyn allforio i'r UE mewn senario dim bargen, byddai angen i fusnesau'r DU gael eu hardystio gan gorff rheoli organig yn y DU sydd wedi'i gydnabod a'i gymeradwyo gan yr UE, ond byddai'n rhaid i gyrff rheoli'r DU aros nes i'r DU ddod yn drydedd wlad er mwyn gwneud cais am gydnabyddiaeth i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Fel rhan o'r cynlluniau hyn, mae Llywodraeth y DU wedi sicrhau cronfeydd newydd ar gyfer rhaglenni a ariennir gan yr UE tan ddiwedd 2020 os na cheir bargen. Yn ogystal â'r sicrhad, mae Llywodraeth y DU wedi rhoi arweiniad ar sut y bydd hyn yn gweithredu ar gyfer rhaglenni penodol megis Erasmus+ a Horizon 2020. Yn ei hadroddiad o'r enw Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE a gyhoeddwyd ar 1 Awst, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad, ymysg pethau eraill, fod "y sicrhad... gyda'r telerau newydd yn lleihau'n sylweddol y risg y bydd Cymru yn colli cyllid mewn senario dim cytundeb".

Cyhoeddwyd ail gyfran o hysbysiadau ar 13 Medi. Roedd yr hysbysiadau hyn yn cynnwys: y Cyfleuster Cysylltu Ewrop; Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop; Grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop; Cyllid ar gyfer prosiectau UK LIFE; gyrru yn yr UE; Trin achosion cyfreithiol sifil; Penodi personau enwebedig; Masnachu o dan yr egwyddor cydnabyddiaeth ar y cyd; Masnach nwyddau wedi'u rheoleiddio o dan y 'Dull Newydd'; Cymeradwyaeth math o gerbyd; Cyrchu contractau'r sector cyhoeddus; Darlledu a fideo ar alw; Adolygiad Cyfuniad a gweithgarwch gwrth-gystadleuol; yr hyn y dylai busnesau telathrebu ei wneud; Diogelu data; safonau allyriadau diwydiannol; Adrodd ar allyriadau CO2 ar gyfer ceir a faniau newydd; Cynnal safonau amgylcheddol; Defnyddio a masnachu mewn nwyon wedi'u

fflworeiddio; rheoli busnes olew neu nwy; Masnachu mewn rhagflaenwyr cyffuriau; Lloerennau a rhaglenni gofod; eithriad rhag hysbysiadau diogelwch morol; Cydnabod tystysgrifau morwyr; Trawsrwydweithio ffonau symudol a theithio yn yr UE.

Ar ochr yr UE, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ddatganiad ar baratoi ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE, a gyhoeddwyd ar 19 Gorffennaf. Roedd y datganiad hwn yn galw ar randdeiliaid a gweinyddiaethau cenedlaethol a'r UE i baratoi ar gyfer pob senario Brexit. At hynny, mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi paratoi cyfres o hysbysiadau parodrwydd yn nodi'r goblygiadau cyfreithiol ac ymarferol yn sgil ymadawiad y DU â'r UE.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y felin drafod Open Europe drosolwg lefel uchel o'r hyn mae gwledydd allweddol o 27 gwlad yr UE wedi'i wneud i baratoi ar gyfer Brexit dim bargen, yn ogystal â dadansoddiad o rai o hysbysiadau technegol Llywodraeth y DU.

## Effaith bosibl Brexit

Ar 3 Medi, cyhoeddodd y felin drafod Y DU mewn Ewrop sy'n Newid adroddiad ar ailystyried cost dim bargen. Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad a ganlyn:

> "So while a chaotic Brexit remains a possibility, either via a breakdown in the negotiations or the inability of British politicians to provide a majority for any conceivable negotiated outcome, its impacts will be severe and overwhelmingly negative. In the short term at least, considerable uncertainty and disruption will result. In all likelihood, the chances of negotiating the kinds of mitigating deals that the government seems to assume will be possible in its technical notices on the pact of no deal seem slim".

Cyhoeddodd Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ei Phapur Briffio 'What if there's no Brexit deal?' ar 10 Medi. Mae'r papur yn canolbwyntio ar sut y gallai sefyllfa o'r fath godi, y goblygiadau cyfansoddiadol ar gyfer y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, a beth y gallai'r effaith fod mewn ystod o feysydd polisi.

Yn ei ddatganiad i Senedd y DU ar 4 Medi, nododd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd y canlynol:

> "Our approach acknowledges that there are some risks to a 'no deal' scenario, And demonstrates that we are taking the action to avoid, to

> minimise and to mitigate these potential risks so we are equipped to manage any short-term disruption".

Hefyd, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol y gallai Brexit dim bargen gyflwyno cyfleoedd gwrthbwysol, megis tariffau is o'r gallu i gyflwyno cytundebau masnach rydd newydd ar unwaith, adferiad llawn o reolaeth ddeddfwriaethol a rheoleiddiol, a diwedd cyflymach i gyfraniadau ariannol at yr UE.

Hefyd, cyhoeddodd y grŵp Economists for Free Trade adroddiad ym mis Medi ar effaith y DU yn masnachu â'r UE yn seiliedig ar reolau Sefydliad Masnach y Byd. Daeth ei adroddiad i'r casgliad a ganlyn:

> The long-term gain to GDP would be about 7% over the next decade and a half, a half percentage point addition to the growth rate over this period. The average household would gain around 8%, while the poorest household will be 15% better off. The Treasury will receive about 10% extra revenue - around £80 billion.

Dadansoddwyd y papur hwn gan dîm Reality Check y BBC, gan archwilio rhai o'i honiadau allweddol, nodi'r gwahaniaethau rhwng y rhain a gwaith cyhoeddedig arall, a thynnu sylw at rai o feirniadaethau'r adroddiad a wnaed gan economegwyr a sefydliadau eraill.

# 4. Ymateb Llywodraeth Cymru

Ar 16 Gorffennaf, mewn ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth y DU, dywedodd Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones fod y Papur Gwyn yn cynrychioli 'sefyllfa negodi cymharol gredadwy'. Aeth ymlaen i:

> "... annog 27 gwlad yr UE i ddangos rhywfaint o hyblygrwydd i osgoi'r sefyllfa drychinebus o fod heb gytundeb... Drwy gamu dros y llinellau coch a chydweithio, rwy'n credu y gallwn ddod i gytundeb sy'n sylfaen i berthynas economaidd hirdymor".

Y diwrnod canlynol, cyhoeddodd Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, bapur diweddaraf Llywodraeth Cymru ar Brexit o'r enw 'Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit'. Amlinellodd y datganiad cysylltiedig y cynigion sy'n cynnwys disodli fformiwla Barnett â system newydd sy'n seiliedig ar

reolau, gan sicrhau na fydd Cymru yn colli ceiniog o gyllid oherwydd Brexit a chreu cyrff annibynnol newydd i oruchwylio unrhyw system gyllido newydd.

Gan ymateb i gyhoeddiad Llywodraeth y DU o'r hysbysiadau technegol dim bargen ar 23 Awst, dywedodd Prif Weinidog Cymru:

> "Nid yw ymadael heb gytundeb yn opsiwn ac nid yw ymgais Llywodraeth y DU i daflu llwch i’n llygaid yn llwyddo. Mae’n bryd i’r Prif Weinidog roi ei chardiau ar y ford a mynd ati i weithio’n adeiladol gyda 27 yr UE i sicrhau cytundeb Brexit sy’n diogelu ein dinasyddion, ein gwasanaethau a’n heconomi".

Ar 10 Medi, cafwyd prif araith gan y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, o'r enw "Brexit and devolution: stresses, strains and solutions", yn y Sefydliad Llywodraeth yn Llundain. Yn ei araith, galwodd am ddiwygio trefniadau cyfansoddiadol y DU ar ôl Brexit, gan gynnwys diwygio confensiwn Sewell a chreu mecanweithiau rhynglywodraethol newydd.

Ar 12 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddatganiad ar y cyd yn nodi sut y maent yn bwriadu cydweithio ar amaethyddiaeth yn y dyfodol.

## Parodrwydd

Cyfarfu Grŵp Cynghori Cymru ar Ewrop ar 12 Gorffennaf. Nododd nodiadau'r cyfarfod hwnnw fod y grŵp wedi dod i'r casgliad bod

> "angen gwneud mwy i sicrhau bod Cymru yn barod yn weithredol wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd".

Mae'r cofnodion hefyd yn cynnwys trosolwg o ddogfen ymgynghori Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, sef Brexit a'n Tir. Mae'r ddogfen yn nodi Rhaglen Rheoli Tir newydd i gefnogi ffermwyr Cymru ar ôl Brexit, gan ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Mae'r ddogfen yn cynnig dau gynllun mawr a hyblyg newydd i ddisodli Cynllun y Taliad Sylfaenol, Glastir a rhannau eraill o'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Y rhain fydd

- Bydd y cynllun Cadernid Economaidd yn darparu buddsoddiad wedi'i dargedu i reolwyr tir a'u cadwyni cyflenwi. Bydd yn darparu buddsoddiad i gynyddu cystadleurwydd a gwneud gwelliannau mewn cadernid a chynhyrchedd ar gyfer cynhyrchu bwyd o ansawdd uchel.
- Bydd y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus yn darparu ffrwd incwm newydd i reolwyr tir sy'n darparu nwyddau cyhoeddus o'r tir. Bydd yn eu helpu i

fynd i'r afael â heriau megis lliniaru newid hinsawdd, colli cynefinoedd, ansawdd aer a dŵr gwael.

Yn ogystal â chofnodion y cyfarfod, cyhoeddwyd dogfen sy'n cynnwys rhagor o fanylion ar gronfa bontio'r UE gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys ei hegwyddorion dylunio a'i strwythur llywodraethu. Yn gyffredinol, mae'n dweud:

> "Dylai'r Gronfa helpu Cymru i gynllunio ac i fod yn barod ar gyfer Brexit. Mae meysydd posibl ar gyfer buddsoddi'n cynnwys technegol, masnachol a masnach a chymorth allforio yn ogystal â chymorth diwydiant mewn sectorau penodol i fusnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Gall y Gronfa helpu cyflogwyr i ddenu, recriwtio a chadw gwladolion y DU, sy'n gwneud cyfraniad hanfodol i Gymru."

Mae manylion am y gyfran gyntaf o gyllid o'r gronfa hefyd wedi'u cynnwys. Dyraniadau y tynnir sylw atynt yn y ddogfen yw:

- £2.15 miliwn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r sector cig coch yng Nghymru;
- £100,000 ar gyfer prosiect i gymryd lle mewnforio er mwyn helpu i nodi a sicrhau cadwyni cyflenwi yn y DU ac annog cwmnïau yn yr UE i ymsefydlu yng Nghymru;
- £390,000 a £440,000 dros ddwy flynedd i drawsnewid Systemau Rheoli Pysgodfeydd y Llywodraeth ac i gefnogi sectorau dyframaethu a physgodfeydd Cymru wrth iddynt baratoi i'r DU ymadael â'r UE yn ôl eu trefn;
- £3.5 miliwn ar gyfer rhaglen sy'n cael ei chynnal gan brifysgolion Cymru i ysgogi partneriaethau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru fel man astudio ar ôl Brexit;
- £150,000 i hwyluso Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu pecyn cymorth Brexit i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru; a
- £200,000 i gynnal ymchwil i gasglu data ar weithlu gofal cymdeithasol a'r ddibyniaeth ar wladolion yr UE. Cyhoeddwyd rhagor o fanylion am yr ymchwil hon ar 30 Gorffennaf.

Disgwylir i'r cynigion ar gyfer yr ail gyfran o gyllid gael eu hasesu a, lle y bo'n berthnasol, eu cymeradwyo ar 19 Medi 2018.

Cynhaliwyd cyfarfod y Fforwm Gweinidogol (Negodiadau'r UE) yng Nghaerdydd ar 1 Awst. Cynrychiolwyd Cymru gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, a Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio. Nododd yr hysbysiad dilynol hyn:

> "The three principal agenda items at the meeting were an update and discussion of the latest state of the EU negotiations, a discussion on measures to support open and fair competition between markets and the Forward Work Programme for the Ministerial Forum (EU Negotiations)".